Menter Gymunedol Llanuwchllyn: Datganiad Polisi Amgylcheddol

Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i'r holl dir, eiddo a gweithgareddau o fewn rheolaeth Menter Gymunedol Llanuwchllyn.

Mae Menter Gymunedol Llanuwchllyn yn ymrwymo i warchod a gwella'r amgylchedd ac i leihau effeithiau amgylcheddol ei gweithgareddau.

Bydd Menter Gymunedol Llanuwchllyn yn rheoli ei gweithgareddau mewn modd a fydd yn amgylcheddol gynaliadwy.

Er mwyn cyflawni'r nod uchod bydd angen dilyn yr amcanion canlynol:

- Hyrwyddo ac ymarfer polisïau rheolaeth amgylcheddol lle bo'n briodol.
- Cydymffurfio ag anghenion deddfwriaethau amgylcheddol perthnasol.
- Bod yn effeithlon a chyfrifol yn amgylcheddol wrth ddefnyddio dŵr ac ynni, a monitro defnydd o ynni a gweithredu mesurau (deunyddiau a dyluniadau) i ddefnyddio ynni'n effeithiol.
- Hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol am wasanaethau a nwyddau.
- Lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff lle bo'n briodol.
- Lleihau ac osgoi llygredd a gweithredu mesurau i leihau llygredd o bob math.
- Codi ymwybyddiaeth aelodau Menter Gymunedol Llanuwchllyn o effeithiau amgylcheddol ei gweithgareddau, a hyrwyddo arfer da bob amser.
- Hyrwyddo arferion amgylcheddol da fel sail i bryniant nwyddau a gwasanaethau.
- Gwarchod a datblygu elfennau amgylcheddol adeiladau a thiroedd ym meddiant y Fenter.

Arwyddwyd ar ran Menter Gymunedol Llanuwchllyn



Grisial Llewelyn (Cadeirydd)

Dyddiad: 7 Gorffennaf 2023